# Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 ac 1963
# Rheoliadau Plant
# (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015
## Ffurflen Gais Amlinellol Trwydded Perfformiadau a Gweithgareddau Plant (Cymru) ar gyfer plant [yn byw/cymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd] o fewn ffiniau Cyngor Sir Ddinbych

Noder: dylid cwblhau a chyflwyno'r ffurflen gais hon i'r awdurdod trwyddedu ddim llai na **21 diwrnod** cyn y perfformiad cyntaf neu'r gweithgaredd y mae angen y drwydded o'i herwydd, neu gall yr awdurdod trwyddedu wrthod cyflwyno trwydded.

Mae cyfeiriadau at "y Rheoliadau" yn golygu Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015.

## Rhan A: Gwybodaeth i'w ddarparu gan yr ymgeisydd o safbwynt y plant

Gweler rheol 4 a Rhan 1 Atodlen 2 o'r Rheoliadau
Fel arfer bydd angen i'r ymgeisydd gael y wybodaeth yma gan riant y plentyn a bydd angen i riant y plentyn arwyddo'r ffurflen wedi iddi gael ei chwblhau, ond yr ymgeisydd ddylai'r gyflwyno'r ffurflen oni bai bod y rhiant hefyd yn gyfrifol am drefnu'r perfformiad neu weithgaredd.

| | |
|---|---|
| A1) Enw'r plentyn: | |
| A2) Cyfeiriad cartref y plentyn: | |
| A3) Dyddiad geni'r plentyn: | |

| | |
|---|---|
| A4) Enw a chyfeiriad yr ysgol y mae'r plentyn yn ei mynychu ar hyn o bryd:<br>NEU<br>Os nad yw'r plentyn yn mynychu ysgol, enw a chyfeiriad athro/athrawes breifat y plentyn: | |

| | |
|---|---|
| A5) Manylion pob trwydded sydd wedi ei rhoi i'r plentyn yn ystod y 12 mis cyn dyddiad y cais gan unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru neu yn Lloegr, neu unrhyw awdurdod addysg yn yr Alban, ar wahân i'r awdurdod y mae'r cais hwn yn cael ei wneud iddo[1], gan nodi -<br>a) Enw'r awdurdod; | |
| b) Y dyddiad y rhoddwyd y drwydded; | |
| c) Dyddiad a natur y perfformiadau neu'r gweithgareddau: | |

| | |
|---|---|
| A6) Manylion pob cais am drwydded o ran y plentyn a wrthodwyd gan unrhyw awdurdod arall yn ystod y 12 mis diwethaf, ar wahân i'r awdurdod trwyddedu y mae'r cais hwn yn cael ei wneud iddo, gan nodi -<br>a) Enw'r awdurdod lleol neu'r awdurdod addysg; | |
| b) Y rhesymau (os ydynt yn hysbys) am wrthod trwyddedu: | |

| | |
|---|---|
| A7) Manylion unrhyw berfformiadau nad oedd angen trwydded[2] ar eu cyfer y cymrodd y plentyn ran ynddynt dros y 12 mis diwethaf, gan gynnwys cynyrchiadau oedd wedi eu heithrio rhag gorfod cael trwydded, gan nodi -<br>a) Dyddiad y perfformiad(au); | |
| b) Y nifer o ddiwrnodau y cynhaliwyd y perfformiad; | |
| c) Teitl y perfformiad(au); | |
| d) Enw a chyfeiriad yr unigolyn/unigolion sy'n gyfrifol am y cynhyrchiad/cynyrchiadau: | |

[1] Dim ond os yw'r plentyn wedi symud rhwng awdurdodau yn y 12 mis diwethaf y bydd hyn yn berthnasol.

[2] Adran 37(3) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963: mae hyn yn cynnwys perfformiadau wedi eu trefnu gan ysgolion, ble rhoddwyd cymeradwyaeth dorfol, a ble mae'r plentyn wedi perfformio am lai na phedwar diwrnod yn ystod y chwe mis cyn y perfformiad perthnasol

| | |
|---|---|
| A8) Dyddiadau (os oes rhai) pan fu'r plentyn yn absennol o'r ysgol yn ystod y deuddeg mis cyn dyddiad y cais oherwydd eu bod wedi bod yn cymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd, gan gynnwys y rheiny a oedd wedi eu heithrio rhag yr angen am drwydded: | |

| | |
|---|---|
| A9) Cyfanswm o arian a enillwyd gan y plentyn yn ystod y deuddeg mis diwethaf, gan nodi os yw'r arian wedi ei ennill am gymryd rhan mewn perfformiadau neu weithgareddau yr oedd trwydded ar eu cyfer neu ar gyfer perfformiadau lle nad oedd angen trwydded: | |

## Rhan B: Gwybodaeth i'w ddarparu gan yr ymgeisydd am y perfformiad neu'r gweithgareddau

Gweler Rhan 2 Atodlen 2 y Rheoliadau.

Yr **Ymgeisydd** yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am drefnu'r gweithgaredd neu'r perfformiad, ac a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod amodau'r drwydded yn cael eu cwrdd.

Mae'n arfer da bod yr holl sefydliadau sy'n ymwneud â phlant mewn perfformiadau, modelu am dâl neu chwaraeon am dâl yn sicrhau bod ganddynt bolisi amddiffyn plant, yn ei adolygu a'i ddiweddaru yn rheolaidd, ac yn sicrhau bod yr holl staff a gwirfoddolwyr yn gyfarwydd ag ef.

| | |
|---|---|
| Teitl: | |
| Enw: | |
| Teitl y Swydd: | |
| Sefydliad: | |
| Cyfeiriad: | |
| Ffôn: | Ffôn symudol: |
| E-bost: | |

| | |
|---|---|
| B1) Oes gan eich sefydliad bolisi amddiffyn neu ddiogelu plant? Pryd gafodd ei ddiweddaru ddiwethaf? Mewnosodwch ddolen neu atodwch gopi os gwelwch yn dda. | |

| | |
|---|---|
| B2) Ydych chi wedi cwblhau asesiad risg? Os ydych, atodwch ef i'r cais hwn os gwelwch yn dda. Os nac ydych, eglurwch sut byddwch yn adnabod ac yn lliniaru risgiau i'r plentyn dros y cyfnod y gwneir cais am drwydded ar ei gyfer. | |
| | |
| B3) Enw a natur[3] y perfformiadau neu'r gweithgareddau y gwneir cais am drwydded ar eu cyfer: | |
| Rhowch ddisgrifiad mor llawn ag y gallwch am beth fydd angen i'r plant ei wneud mewn gwirionedd. Rhaid | |

[3] Er enghraifft, theatraidd, cerddorol, dawnsio, ffilmio, chwaraeon, modelu.

| | |
|---|---|
| cynnwys gwybodaeth am yr amgylchedd y bydd disgwyl iddynt weithredu oddi fewn iddo ac unrhyw wybodaeth gyd-destunol arall a allai ein cynorthwyo i asesu risgiau corfforol, emosiynol, neu seicolegol posib i'r plentyn. | |
| | |
| B4) Lleoliad gweithgareddau, perfformiadau ac ymarferion y mae angen y drwydded ar eu cyfer, gan gynnwys unrhyw gyfnodau ar leoliad: | |
| | |
| B5) Dyddiadau ac amserau gweithgareddau, perfformiadau neu ymarferion y gwneir cais am drwydded ar eu cyfer:<br>Os na wyddoch y dyddiadau ar hyn o bryd, nodwch y nifer o ddiwrnodau a'r cyfnod y bydd angen i'r plentyn gymryd rhan mewn gweithgareddau, perfformiadau neu ymarferion. | |
| | |
| B6) Amser rhedeg neu gyfnod disgwyliedig y gweithgareddau neu'r perfformiadau (gan gynnwys unrhyw ymarferion) y gwneir cais am drwydded ar eu cyfer: | |
| | |
| B7) Hyd tebygol ymddangosiad y plentyn yn y perfformiad neu'r gweithgaredd: | |
| | |
| B8) Faint o waith nos (os o gwbl) y gwneir cais am drwydded ar ei gyfer a nodwch:<br>a) y nifer tebygol o ddyddiau[4]: | |
| b) y cyfnod tebygol ar bob diwrnod: | |
| c) Y rheswm pam bod rhaid i'r perfformiad fod ar ffurf gwaith nos: | |

[4] I'r perwyl hwn bydd unrhyw berfformiad yn digwydd ar ôl hanner nos a chyn yr awr gynharaf a ganiateir yn cyfri' fel estyniad i'r diwrnod blaenorol. Er enghraifft. Os yw'r plentyn yn perfformio ar ddydd Mawrth ac yna'n perfformio ar ôl hanner nos, yn ystod oriau mân bore Mercher, yna mae hynny yn cyfri' fel un diwrnod (dydd Mawrth).

| | |
|---|---|
| | |
| B9) a) Faint o arian sydd i'w ennill gan y plentyn sy'n cymryd rhan yn y perfformiad neu'r gweithgaredd: | |
| b) Enw, cyfeiriad a disgrifiad[5] yr unigolyn y telir yr arian iddynt (os nad i'r plentyn): | |
| | |
| B10) Ble bydd angen trwydded o safbwynt perfformiad, y trefniadau arfaethedig ar gyfer unrhyw ymarferion cyn y perfformiad cyntaf y gwneir cais am drwydded ar eu cyfer. Ar gyfer pob ymarfer nodwch a) y dyddiad; | |
| b) y lle; a | |
| c) yr amser a'r hyd tebygol: | |
| | |
| B11) Y diwrnodau neu'r hanner diwrnodau y bydd angen caniatâd i fod yn absennol o'r ysgol er mwyn galluogi'r plentyn i gymryd rhan yn y perfformiad, ymarferion neu weithgaredd: | |
| Rhaid i chi atodi llythyr gan bennaeth yr ysgol y mae'r plentyn yn ei mynychu ar hyn o bryd, neu Os nad yw'r plentyn yn mynychu ysgol, gan athro/athrawes breifat y plentyn, yn cytuno i absenoldeb y plentyn o'r ysgol ac yn nodi na chaiff addysg a lles y plentyn ei effeithio'n negyddol. | |
| | |
| B12) Trefniadau arfaethedig (os oes rhai) ar gyfer addysg y plentyn yn ystod y cyfnod y mae angen y drwydded o'i herwydd gan nodi - a) Pan ddarperir yr addysg gan ysgol, enw a chyfeiriad yr ysgol: | |
| b) Pan na ddarperir yr addysg gan ysgol: Enw, cyfeiriad a chymwysterau'r athro/athrawes arfaethedig; | |
| ii. y man lle dysgir y plentyn; | |

[5] Os taw unigolyn yw hwn, beth yw eu perthynas â'r plentyn? Os taw cwmni neu sefydliad yw hwn, beth yw eu perthynas â'r plentyn?

| | |
|---|---|
| iii. y cwrs astudio arfaethedig; | |
| iv. y nifer o blant eraill i gael eu dysgu ar yr un pryd gan yr un athro/athrawes, a rhyw ac oedran pob plentyn; | |
| v. faint o addysg mae'r plentyn i'w dderbyn: | |
| | |
| B13) Enw a chyfeiriad yr hebryngwr arfaethedig neu, os nad oes angen un, enw a chyfeiriad y rhiant neu'r athro fydd â gofal am y plentyn: | |
| | |
| B14) Enw'r awdurdod lleol, neu yn yr Alban yr awdurdod addysg sydd wedi cymeradwyo penodiad yr hebryngwr yn flaenorol: | |
| | |
| B15) Y nifer o blant i fod dan ofal yr hebryngwr yn ystod y cyfnod pan fydd yr hebryngwr â gofal o'r plentyn, a rhyw ac oedran pob plentyn: | |
| | |
| B16) Cyfeiriad unrhyw lety lle bydd y plentyn yn byw, os yn wahanol i'r lle mae'n byw fel arfer, nifer y plant eraill yn byw yno a manylion hebryngwr (os oes)a fydd yn byw yn yr un llety: | |
| | |
| B17) Y cyfnod o amser, yn fras, y bydd y plentyn yn ei dreulio'n teithio i ac o leoliad y perfformiad, ymarfer, neu weithgaredd bob dydd, gan gynnwys:<br>a) Trefniadau (os oes rhai) i gludo'r plentyn i'r man hwnnw; a | |
| b) Trefniadau (os oes rhai) i gludo'r plentyn o'r man hwnnw: | |
| | |
| B18) Enw unrhyw awdurdod lleol, neu, yn yr Alban, awdurdod addysg y mae cais wedi ei wneud i blentyn arall gymryd rhan mewn perfformiadau neu weithgareddau sy'n berthnasol i'r cais (os nad | |

| | |
|---|---|
| ydych yn gwybod hyn ar adeg gwneud y cais, dylid darparu'r wybodaeth pan fyddwch yn gwybod amdano):<br>(Bydd hyn o gymorth i'r awdurdod lleol perthnasol ymdrin â'r mater mewn modd cyson) | |

## Llofnodion

**Rwy'n cadarnhau bod y manylion yn y cais hwn yn gywir hyd y gwn i. Drwy hyn rwy'n ymgeisio am drwydded dan adran 37 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963:**

| | |
|---|---|
| **Llofnod yr ymgeisydd:**<br>(I'w arwyddo gan yr unigolyn a enwir ar ddechrau Rhan B) | |
| **Enw'r ymgeisydd:** | |
| **Dyddiad:** | |

**Rwy'n cadarnhau bod y manylion yn y cais yn gywir hyd y gwn i. Rwy'n rhoi caniatâd i fy mhlentyn gymryd rhan yn y perfformiad neu'r gweithgaredd a ddisgrifir uchod yn Rhan B:**

| | |
|---|---|
| **Llofnod y rhiant:**<br>(I'w arwyddo gan yr unigolyn sydd a chyfrifoldeb rhiant[6] dros y plentyn sydd wedi ei enwi ar ddechrau Rhan A) | |
| **Enw'r rhiant:** | |
| **Dyddiad:** | |

Nodiadau ychwanegol:

a) Mae fersiynau electronaidd o'r ffurflen hon a dogfennaeth electronaidd yn dderbyniol, gan gynnwys llofnodion.
b) Dylai'r ymgeisydd sicrhau bod y rhiant/gwarcheidwad a'r hebryngwr yn derbyn copi o'r holl ffurflen wedi ei chwblhau, sef hon yr ydych chi'n ei chyflwyno i'r awdurdod lleol.
c) Gallai unrhyw unigolyn sy'n methu glynu at amodau sy'n ddarostyngedig i roi trwydded neu sydd yn gwneud datganiad ffug yn ymwybodol neu'n ddiofal ar gais neu'n gysylltiedig â chais am drwydded gael dirwy heb fod yn fwy na £1000 (lefel 3 ar y raddfa safonol) neu dderbyn cyfnod o garchar heb fod yn hwy na thri mis, neu'r ddau (adran 40 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963).

[6] Fel y'i diffinnir o fewn adran 3 Deddf y Plant 1989, mae 'cyfrifoldeb rhiant' yn golygu yr holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldeb ac awdurdod sydd gan riant yn ôl y gyfraith mewn perthynas â'r plentyn a'i eiddo.

## Datganiad meddygol i'w gwblhau a'i arwyddo gan riant y plentyn

| Enw'r plentyn | | |
|---|---|---|
| Yw eich plentyn yn dioddef o: | | Os ydy, rhowch fanylion gan gynnwys unrhyw driniaethau neu feddyginiaeth: |
| Asthma | Ydi/ Nac ydi | |
| Unrhyw alergeddau | Ydi/ Nac ydi | |
| Unrhyw gyflyrau ar y croen | Ydi/ Nac ydi | |
| Amhariad ar y clyw | Ydi/ Nac ydi | |
| Nam ar y Golwg | Ydi/ Nac ydi | |
| Unrhyw anabledd dysgu | Ydi/ Nac ydi | |
| Unrhyw anabledd corfforol | Ydi/ Nac ydi | |
| Unrhyw gyflwr meddygol? | Ydi/ Nac ydi | |
| Yw'ch plentyn wedi bod yn cymryd meddyginiaeth(au) yn rheolaidd | Ydi/ Nac ydi | |
| Ydy'ch plentyn wedi gweld neu wedi ei atgyfeirio at arbenigwr ysbyty yn ystod y chwe mis diwethaf | Ydi/ Nac ydi | |

| Rwy'n cadarnhau bod gennyf gyfrifoldeb rhiant[7] dros y plentyn | Llofnod y rhiant: |
|---|---|
| | Enw mewn print bras: |
| Cyfeiriad Post (os yn wahanol i'r plentyn) | |
| Cyfeiriad E-bost y Rhiant | |
| Rhif Ffôn y Rhiant | |
| Dyddiad: | |

[7] Fel y'i diffinnir o fewn adran 3 Deddf y Plant 1989, mae 'cyfrifoldeb rhiant' yn golygu yr holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldeb ac awdurdod sydd gan riant yn ôl y gyfraith mewn perthynas â'r plentyn a'i eiddo.

## Dogfennau sydd eu hangen

**Cadarnhewch os gwelwch yn dda eich bod wedi cynnwys y dogfennau[8] canlynol gyda'r cais wedi ei lofnodi:**

| Dogfen | Cadarnhau |
|---|---|
| Copi o dystysgrif geni'r plentyn (derbynnir copïau wedi eu sganio – peidiwch ag anfon copïau caled gwreiddiol)[9]: *(Cwestiynau A1 ac A3)* | |
| Dau lun yr un fath o'r plentyn wedi eu cymryd yn ystod y chwe mis cyn dyddiad y cais hwn – printiau *neu* debygrwydd electronaidd (e.e. ffeil jpeg) [10]: | |
| Copi o'r cytundeb, cytundeb drafft neu ddogfen arall yn cynnwys manylion y cytundeb yn rheoleiddio ymddangosiad y plentyn yn y perfformiad neu'n rheoleiddio'r gweithgaredd a geisir y drwydded ar ei gyfer: | |
| Y polisi neu bolisïau amddiffyn plant y bydd yr ymgeisydd yn ei weithredu/eu gweithredu: *(Cwestiwn B1)* | |
| Yr asesiad risg (os yw wedi ei gwblhau) ar gyfer y perfformiad neu'r gweithgaredd: *(Cwestiwn B2)* | |
| Llythyr gan bennaeth yr ysgol y mae'r plentyn yn ei mynychu, neu Os nad yw'r plentyn yn mynychu ysgol, gan athro/athrawes breifat y plentyn, yn cytuno i absenoldeb y plentyn o'r ysgol ac yn nodi na chaiff addysg a lles y plentyn ei effeithio'n negyddol. *(Cwestiwn B11)* | |
| Y datganiad meddygol wedi ei gwblhau a'i arwyddo gan riant y plentyn | |

[8] Rheol 4(1)(d) a Rhan 3 Atodlen 2 y Rheoliadau

[9] Mewn amgylchiadau eithriadol lle na ellir darparu tystysgrif geni'r plentyn fel rhan o'r cais (e.e. gan nad oes ganddynt un) gall yr awdurdod trwyddedu dderbyn tystiolaeth amgen.

[10] Ni ddylid newid y llun mewn unrhyw ffordd. Dylai fod yn llun llawn o'r wyneb wedi ei gymryd mewn golau da

Dychwelwch at:

**Gwasanaethau Addysg a Phlant, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ**

neu drwy e-bost: schoolsupport@denbighshire.gov.uk